**CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL FAB**

**Cyfarfod y Cyngor: Dydd Llun, 15 Gorffennaf 2024, Yr Efail, 18:45-20:20**

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

**Presennol:** Margaret Clarke (Cadeirydd), Dawn Doran-Jones (Is- Gadeirydd) yn ymuno 19:15, Cyng. Dafydd Roberts, Joanna Robertson, Guto Williams.
**Ymddiheuriadau:** Rob Sargent, Alwen Watkin, Mark Owen.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Joanna yn cadarnhau bod y cofnodion a gyflwynwyd yn gofnod cywir, Dafydd yn eilio.

**3. Materion yn codi**

**Y gofeb rhyfel** – mae modd gwneud cais am gymorth ariannol i'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel i atgyweirio'r gofeb. Fel arfer, dyfernir grantiau ar 50% o'r costau cymwys ond mae asesiad grant yn broses gystadleuol ac nid oes sicrwydd y bydd y cais yn llwyddiannus. Cytunwyd y byddai un o'r aelodau yn darparu ffotograffau o'r gofeb i ddangos y cyflwr presennol ac i'r Clerc fynd ati i gyflwyno ffurflen cyn-ymgeisio grant cyn gynted â phosib.

**4. Datgan diddordeb**

Dim datganiad.

**5. Cynllunio**

Ymgynghoriad Cynllunio **LUE/2024/20.**
Dim sylwadau; bydd y Clerc yn cadarnhau hyn i'r Cyngor Sir.

**6. Materion ariannol**

**Adroddiad misol**:
Incwm a gwariant ers y cyfarfod diwethaf:

| | | |
|---|---|---|
| Incwm: | | |
| Dim | | £ -- |
| Gwariant: | | |
| Rospa – Archwiliad blynyddol | £103.20 | |
| Misol: | | |
| Cyfieithu ar y pryd – Mehefin | £101.25 | |
| Llogi offer cyfieithu – Mehefin | £ 30.00 | |
| Costau banc | £ 5.00 | |
| Cyflog y Clerc | £415.68 | |
| CThEF – taliadau statudol | £104.00 | |
| | | £759.13 |

Caniatad wedi'i roi i dalu anfoneb Archwilio Cymru yn y swm £503.00 a chostau torri llwybr Parc Deiniol Sant / Ty Mawr yn y swm £300.

**Adroddiad Chwarterol – monitro cyllideb**

Cyflwynodd y Clerc ddogfennau i'w hadolygu fel a ganlyn:

- Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer Ebrill – Mehefin 2024/25
- Cysoniad banc – hyd at 30/06/2024
- Datganiad banc dyddiedig 02/07//2024
- Adroddiad Chwarter 1 - Monitro Cyllideb

Roedd yr aelodau wedi derbyn copi o'r dogfennau ymlaen llaw trwy ebost cyn y cyfarfod fel bod cyfle ganddynt i adolygu'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y chwarter cyntaf a'r alldro disgwyliedig yn ystod y flwyddyn. Ni welwyd amrywiadau arwyddocaol rhwng y ddarpariaeth yn y gyllideb a lefelau incwm/gwariant. Cytunwyd y gellir defnyddio yr arian yn y cyfrif wrth gefn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer rheolaeth y fynwent i dalu costau torri mynwent Capel Cana i sicrhau bod y Cyngor yn aros o fewn y gyllideb.
Gwirwyd y cysoniad banc a llofnodwyd y cysoniad a'r datganiadau banc gwreiddiol yn dystiolaeth o'r gwiriad.

**Lwfansau Aelodau 2024/25**
Pawb yn gadarn yn eu penderfyniad i wrthod yr holl daliadau Lwfansau i Gynghorwyr 2024/25 a phob un o'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn arwyddo y ffurflen briodol i ddatgan yn ffurfiol eu bod yn gwrthod y lwfansau.

**7. Llythyrau i'w trafod**
Llythyr wedi dod i law gan Gyfarwyddwr Trigolion Llanddaniel yn gofyn am adborth parthed cynllun sydd ganddynt i blannu cennin pedr ar y llain gwyrdd yng nghanol y pentref; yn gofyn hefyd am gyngor parthed pwy yn y Cyngor Sir y dylent gysylltu â hwy i gael caniatad ar gyfer hyn.
Pawb yn cytuno bod hyn yn syniad da a chafwyd trafodaeth o amgylch plannu cennin pedr brodorol a mwy o amrywiaeth yn y plannu o bosib. Cynigiodd un o'r aelodau y byddai hi'n hapus i fod yn rhan o'r cynllun.
Cytunwyd y byddai'r aelod yn cyfarfod gyda Cyfarwyddwr y Trigolion i ddatgan cefnogaeth y Cyngor Cymuned a rhoi gwahoddiad i gynrychiolydd o'r Trigolion ddod i gyfarfod nesaf Cynghrair Bodowyr / Medrwn Môn.

**8. Diweddariad llwybrau**
Cafwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir eu bod wedi rhoi rhybudd i'r tenant, Bryn Celli Ddu am y ffens ger Stad Plas Hen yn ddiweddar. Roedd rhai o'r aelodau wedi sylwi bod y ffens nawr wedi ei thynnu yn gyfan gwbl.
Cafwyd trafodaeth cyffredinol parthed llwybrau sy'n croesi caeau agored a'r risg i rhywun gael ei anafu gan anifail. Adroddodd y Cynghorydd Sir (DR) mai cyfrifoldeb perchennog y tir yw cynnal ffiniau caeau a hysbysu hefo arwydd os oes anifail peryg.

**9. Cae chwarae - diweddariad**
Trafodwyd adroddiad arolygiad diogelwch y cae chwarae gyhoeddwyd gan ROSPA yn dilyn yr ymweliad ar 19 Mehefin 2024.
Adroddodd yr aelodau bod popeth yn mynd yn hen, a'r offer angen ei beintio; mae angen paent pwrpasol ar gyfer hyn ac mae'r paent yn ddrud. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn gofyn i gontractwr lleol am ddyfynbris, a hysbysebu ar Caru Llanddaniel hefyd i weld os oes diddordeb.
Mae offer newydd yn ddrud hefyd, petai'r Cyngor yn ystyried adnewyddu'r offer.
Nodwyd eto fel mae pobl o hyd yn canmol y bwrdd picnic a'r meinciau ac yn gofyn oes modd cael un arall. Byddai o fudd codi y materion hyn yng nghyfarfod nesaf y Cynghrair i weld os oes modd cael cymorth ariannol tuag at y gost o brynu offer chwarae newydd/ bwrdd picnic arall.

**10. Coed y Gof - diweddariad**
Mae gwaith wedi dechrau ar y cynllun draenio fydd yn debygol o gymryd 16 wythnos i'w gwblhau. Gofynnodd un o'r aelodau os yw'r cynllun yn mynd i ddod â gwelliannau yn nhermau gwella llif y dŵr, a chafwyd trafodaeth oedd yn cwmpasu y ddeddfwriaeth ar systemau draenio cynaliadwy (SDCau) sy'n berthnasol â datblygiadau newydd.

Esboniodd y Cynghorydd Sir (DR) mai ail osod y beipen ddŵr mae'r Cyngor Sir. Mae twll wedi ei agor wrth ochr y llwybr i ddangos lle mae'r beipen sy'n delio â dŵr wyneb; nid oes sicrwydd yn union o lle mae'r beipen yn dod. Mae'r gwaith yn mynd ar draws tir preifat ond mae'r Cyngor Sir yn mynd ymlaen â'r gwaith fel bod y broblem o ddŵr yn sefyll yn cael ei sortio. Mae'r tirfeddiannwr wedi llenwi ffoes ochr draw y llwybr a dylai bod dŵr yn llifo'n well rwan.
Mae y Cyngor yn pryderu am y dŵr sy'n sefyll yn y twll; dylid ei ail-lenwi. Dywedodd y Cynghorydd Sir (DR) y byddai yn trafod hyn hefo'r Cyngor Sir.

**11. Diogelwch ffyrdd - diweddariad**

Ymddiheurodd y Cadeirydd nad yw wedi trefnu cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Diogelwch Ffyrdd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd trefnu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf ar ddiwedd y cyfarfod hwn. Roedd yr aelodau yn datgan eu bod yn awyddus i sicrhau bod eu barn yn cael ei ystyried fel rhan o'r 'rhaglen wrando' ar 20mya, amlygwyd mewn llythyr gan Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, ddechrau mis Mehefin. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi ymateb yn barod i wahoddiad i gwblhau holiadur ar-lein a chais am adborth gan Rhun ab Iorwerth am effaith newid cyfyngiadau cyflymder 20mya yn yr ardal. Cytunwyd i ddefnyddio hyn fel sail i gofnodi barn yr aelodau.
Gwnaed sylwad bod pobl yn cwyno am y goleuadau traffig yn y pentref; ar un adeg, roedd tair set o oleuadau ar waith, ond mae'n ofynnol i'w cael lle mae gwaith yn mynd rhagddo. Nodwyd bod gweithwyr Network Rail wedi bod o gwmpas yn ddiweddar, o bosib yn edrych pa waith sydd ei angen lle mae'r ffens wedi dymchwel ger y rheilffordd ar yr ochr dde wrth fynd am Gaerwen.

**12. Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Sir (DR) bod Estyn wedi cwblhau yr Arolwg Ysgol; bydd adroddiad o'r canlyniadau mis Medi.
Cafwyd adroddiad gan un o'r aelodau oedd wedi mynychu cyfarfod trefnu Gwyl Mabsant 2024.

**13. Adroddiad gan y Cynghorwyr Sir**

Dywedodd y Cynghorydd Sir (DR) bod pethau'n ail ddechrau yn dilyn yr etholiad. Mae Arweinydd newydd y Cyngor yn cael ei ethol heno. Adroddodd y Cynghorydd hefyd am gyfarfod Sgriwtini diweddar lle cafwyd cyflwyniadau gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, Gogledd Cymru, a gan y Gwasanaeth Ambiwlans. Daeth y pwnc 'trydydd pont' ar draws yr Afon Menai i fyny eto, gyda'r ddau sefydliad yn datgan bod angen am hyn.

Arwyddwyd: *M. C. Clarke* .                Dyddiad: *16.9.24.*

# LLANDDANIEL FAB COMMUNITY COUNCIL

## Council Meeting: Monday, 15 July 2024, Yr Efail, 18:45-20:20

### 1. Welcome and apologies

**Present:** Margaret Clarke (Chair), Dawn Doran-Jones (Vice- Chair) joined at 19:15, Cllr. Dafydd Roberts, Joanna Robertson, Guto Williams.
**Apologies**: Rob Sargent, Alwen Watkin, Mark Owen.

### 2. Minutes of previous meeting

It was resolved to accept the minutes presented as a true and accurate record.
Proposed and seconded: JR/DR.

### 3. Matters arising

**War Memorial** – it is possible to make an application to the War Memorial Trust for financial assistance to repair the memorial. Grant is normally awarded at 50% of eligible costs but grant assessment is a competitive process and there is no guarantee that the application will be successful. It was agreed that one of the members will take photographs to record the current condition and forward these to the Clerk in order to submit the grant pre-application form as soon as possible.

### 4. Declaration of interest

None.

### 5. Planning

Planning Consultation **LUE/2024/20.**
No comments; the Clerk will confirm this to the Councy Council.

### 6. Financial matters

**Monthly report**:
Income and expenditure since the last meeting:

| | | |
|---|---|---|
| Income: | | |
| None | | £ -- |
| Expenditure: | | |
| Rospa – Annual Inspection | £103.20 | |
| Monthly: | | |
| Simultaneous translation – June | £101.25 | |
| Hire of translation equipment – June | £ 30.00 | |
| Bank charges | £ 5.00 | |
| Clerk's wages | £415.68 | |
| HMRC – statutory payments | £104.00 | |
| | | £759.13 |

Approval given to pay the Audit Wales invoice in the amount of £503.00 and the costs of cutting the Parc Deiniol Sant/Ty Mawr footpath in the amount of £300.

**Budget Monitoring – Quarterly Report**

The Clerk presented documents for review as follows:

- Income and Expenditure account April – June 2024/25
- Bank reconciliation – as at 30/06/2024
- Bank statement dated 02/07//2024
- Quarter 1 – Budget Monitoring Report

Members had received a copy of the documents via email in advance of the meeting in order to have the opportunity to scrutinise the financial position at the end of the first quarter and review the projected outturn. No significant variances between budget provision and income/expenditure levels were identified. It was agreed that the money in the reserve bank account ringfenced for the management of the cemetery can be used to pay for the costs of cutting the Capel Cana cemetery to ensure the Council stays within budget.
The bank reconciliation was checked and the reconciliation and the original bank statements were signed as evidence of the check.

**Councillors' Allowances 2024/25**

All members firm in their decision to decline all Councillors' Allowances payments for 2024/25; all members present at the meeting signed the appropriate form to formally state that they decline to acccept the allowances.

**7. Letters to discuss**

A letter has been received from the Director of Trigolion Llanddaniel asking for feedback regarding a plan they have to plant daffodils on the village green; also asking for advice regarding who in the County Council they should contact to get permission for this. Everyone agreed that this was a good idea and there was a discussion around the planting of native daffodils and possibly more diversity in the planting. One of the members proposed that she would be happy to be part of the scheme.
It was agreed that the member would meet with the Director of the Trigolion to declare the Community Council's support and give an invitation to a representative of the Trigolion to come to the next Bodowyr Alliance / Medrwn Môn meeting.

**8. Footpaths - update**

Confirmation was received from the County Council that a notice has recently been issued to the tenant of Bryn Celli Ddu regarding the fence near the Plas Hen Estate. Some of the members had noticed that the fence has now been removed completely. A general discussion took place regarding paths that cross open fields and the risk of someone being injured by an animal. The County Councillor (DR) reported that it is the responsibility of the land owner to maintain field boundaries and notify with a sign if there is a dangerous animal.

**9. Playground - update**

The playground safety inspection report published by ROSPA following the visit on 19 June 2024 was discussed. The members reported that everything is getting old, and the equipment needs painting; this requires a specific type of paint which is expensive. It was decided that the Council would ask a local contractor for a quote, and advertise on Caru Llanddaniel to see if there is interest.
New equipment is expensive too, should the Council consider renewing the equipment.
It was noted again that people continue to praise the picnic table and benches and ask if it is possible to have another one. It would be beneficial to raise these issues at the next meeting of the Alliance to see if financial support can be obtained towards the cost of buying new play equipment/another picnic table.

**10. Coed y Gof - update**

Work has started on the drainage scheme that is likely to take 16 weeks to complete. One of the members asked whether the scheme will improve the flow of surface water, and there followed a discussion that encompassed the legislation on sustainable surface water drainage (SuDS) which applies to new developments. The County Councillor (DR) explained that the County Council is replacing the water pipe. A hole has been opened at

the side of the path to show where the pipe that deals with surface water is; it is not known exactly where the pipe comes from. The work goes across private land but the County Council is going ahead with the work so that the problem of standing water is sorted. The landowner has filled in a ditch on the other side of the path and water should flow better now.
The Council is worried about the water standing in the hole; the hole should be refilled. The County Councillor (DR) said that he would discuss this with the County Council.

**11. Road safety - update**

The Chair apologised for not having arranged a meeting of the Road Safety Sub-Committee since the last meeting of the Community Council. It was decided to set a date for the next meeting at the end of this meeting. The members stated that they were keen to ensure that their views were considered as part of the 'listening programme' on 20mph, highlighted in a letter from Ken Skates, Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales, in early June. The Chair confirmed that she had already responded to an invitation to complete an online questionnaire and a request for feedback from Rhun ab Iorwerth about the impact of changing the 20mph speed limit in the area. It was agreed to use this as a basis for recording the members' opinion.
An observation was made that people have complained about the traffic lights in the village; at one point, there were three sets of lights in operation, but it is necessary to have them where work is in progress.
It was noted that Network Rail workers have been around recently, possibly looking at what work is needed where the fence has collapsed near the railway line on the righthand side when heading for Gaerwen.

**12. Reports of any meetings**

It was reported by the County Councillor (DR) that Estyn has completed the School Inspection; a report of the findings will be available in September.
A report was given by one of the members who had attended the Gwyl Mabsant 2024 planning meeting.

**13. Report from the County Councillor**

The County Councillor (DR) said that things have restarted following the election. The new Leader of the Council is being elected this evening. The County Councillor also reported on a recent Scrutiny meeting where there were presentations from the Fire and Rescue Service, North Wales, and from the Ambulance Service. The subject of a 'third bridge' across the Menai Straits came up again, with both organisations stating that this was needed.

Signed: M. G. Hewitt. Date: 16-9-24